

# CYFARWYDDYD CYNLLUNIO GWLAD A THREF (HYSBYSU) (GLO A PHETROLEWM) (CYMRU) 2018

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan erthyglau 18(1) a 22(5) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012(1), yn rhoi'r Cyfarwyddyd a ganlyn.

## Cychwyn

1. Daw'r Cyfarwyddyd hwn i rym ar 5 Rhagfyr 2018.

## Dehongli

2. Yn y Cyfarwyddyd hwn—

mae i “cyfathrebiad electronig” yr ystyr a roddir i “electronic communication” yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000 (dehongli cyffredinol)(2);

ystyr “datblygiad glo a phetrolewm” (“*coal and petroleum development*”) yw datblygiad sy'n ymwneud ag—

- (a) mewn perthynas â glo—

- (i) chwilio am lo a thwrio amdano,

- (ii) tynnu glo, gweithio glo a chael glo (pa un ai yn danddaearol neu yn ystod gweithrediadau glo brig),

- (iii) dod â glo tanddaearol i'r wyneb, trin glo a'i wneud yn wertheadwy,

- (iv) trin glo yn y strata at ddiben tynnu unrhyw gynnyrch glo a thynnu, gweithio neu gael unrhyw gynnyrch glo sy'n deillio o driniaeth o'r fath, a

- (v) doddi rwbel o unrhyw weithgarwch a gyflawnir yn ystod unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau uchod a draenio glofeydd;

- (b) mewn perthynas â phetrolewm, chwilio am betrolewm, twrio am betrolewm a chael petrolewm;

mae i “glo” a “glofa” yr ystyron a roddir i “coal” a “coal mine” yn adran 65(1) o Ddeddf y Diwydiant Glo 1994(3);

mae i “petrolewm” yr ystyr a roddir i “petroleum” yn adran 1 o Ddeddf Petrolewm 1998(4);

## Cymhwyso

3. Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn gymwys i unrhyw gais am ganiatâd cynllunio a wneir i awdurdod cynllunio lleol—

- (a) mewn perthynas â thir yng Nghymru;

- (b) a wneir ar 5 Rhagfyr 2018 neu ar ôl hynny;

---

(1) O.S. 2012/801 (Cy.110).

(2) 2000 p. 7. Diwygiwyd adran 15(1) gan baragraff 158 o Atodlen 17 i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (p. 21).

(3) 1994 p. 21.

(4) 1998 p. 17.

- (c) ar gyfer datblygiad sy'n ddatblygiad glo a phetrolewm; a
- (d) nad yw'r awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu ei wrthod.

### **Hysbysu Gweinidogion Cymru**

4. Pan na fo awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu gwrthod cais am ddatblygiad glo a phetrolewm, rhaid i'r awdurdod hysbysu Gweinidogion Cymru.

5. Pan fo'n ofynnol i awdurdod cynllunio lleol hysbysu Gweinidogion Cymru, rhaid iddo anfon at Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, drwy gyfathrebiad electronig neu fel arall—

- (a) copi o'r cais (gan gynnwys copiâu o unrhyw blaniau a lluniadau cysylltiedig ac unrhyw asesiad priodol o'r perygl o lifogydd, trafndiaeth, sŵn neu unrhyw asesiad priodol arall) a gwybodaeth ategol;
- (b) copi o'r hysbysiad gofynnol;
- (c) copi o unrhyw sylwadau a wnaed i'r awdurdod mewn cysylltiad â'r cais (gan gynnwys unrhyw farn a fynegwyd gan adran o'r llywodraeth, awdurdod cynllunio lleol arall neu ymgynghorai arall);
- (d) copi o unrhyw adroddiad ar y cais a luniwyd gan un o swyddogion yr awdurdod;
- (e) copi o unrhyw farn sgrinio a ddyroddwyd o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effêithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017(1); ac
- (f) copi o unrhyw asesiadau priodol a gynhaliwyd o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017(2).

### **Y cyfnod perthnasol cyn y caiff awdurdod cynllunio lleol roi caniatâd cynllunio**

6. Yn ddarostyngedig i baragraff 7, pan fo'n ofynnol i awdurdod cynllunio lleol hysbysu Gweinidogion Cymru, ni chaiff yr awdurdod roi caniatâd cynllunio i'r cais tan ddiwedd y cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r awdurdod yn ysgrifenedig mai dyna'r dyddiad iddynt gael yr wybodaeth a bennir ym mharagraff 5.

7. Caiff yr awdurdod cynllunio lleol fwrw ymlaen i benderfynu ar y cais os bydd Gweinidogion Cymru, cyn diwedd y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff 6, yn hysbysu'r awdurdod —

- (a) nad yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu dyroddi cyfarwyddyd o dan adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 mewn cysylltiad â'r cais hwnnw; neu
- (b) nad yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod y datblygiad yn ddatblygiad glo a phetrolewm.

---

(1) O.S. 2017/567 (Cy.136).  
(2) O.S. 2017/1012.

## Dileu

8. Mae'r Cyfarwyddydau a ganlyn wedi eu dileu ac eithrio eu bod yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw gais am ganiatâd cynllunio sy'n ymwneud â thir yng Nghymru a wneir cyn 5 Rhagfyr 2018 —

- (a) Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Olew a Nwy Anghonfensiynol) (Cymru) 2015;
- (b) Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Nwyeiddio Glo Tanddaearol) (Cymru) 2016.

  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, un o Weinidogion  
Cymru  
4 Rhagfyr 2018